



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD: 35 WYTHNOS 14/09/2021

Rydym yn falch o gael dweud fod 75% o unigolion 16 ac 17 oed yn y Bwrdd Iechyd, ac 80% o unigolion 18-29 oed wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19.

Brechlyn Covid-19 ar gyfer pobl 16 mlwydd oed a hŷn

Bellach, gall unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn, neu unrhyw un sydd wedi cael eu dos cyntaf ers 8 wythnos, alw heibio yn unrhyw rai o'n clinigau brechu i gael brechlyn Covid-19.

I weld ymhle a phryd yr agorir ein clinigau arfaethedig, ewch i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/not-vaccinated-yet/>

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu apwyntiad. Mae dal yn bosib cael eich brechlyn os nad ydych wedi derbyn y cynnig eto. Mae cyfraddau o fewn cymunedau'n cynyddu, a'r brechlyn yw'r ffordd orau i ddiogelu eich hun a'ch anwyliaid.

Diolch yn fawr i'r bobl ifanc ledled Gwent, gan holl staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sydd wedi cymryd y cyfle i gael eu brechlyn Covid-19.

Pobl ifanc sy'n troi'n 16 oed

Gallwn gadarnhau wrth i bobl ifanc droi'n 16 oed, y byddwn yn cysylltu â nhw i'w gwahodd am frechlyn drwy lythyr.

Trydydd Brechlyn Covid-19

Rydym yn disgwyl y canllawiau terfynol gan JCVI ynghylch pwy fydd dan sylw ar gyfer y rhaglen atgyfnerthu. Nid ydym yn gallu cynnig cyngor ynghylch pryd fydd rhaglen atgyfnerthu'n dechrau, am ein bod ni'n disgwyl am y canllawiau terfynol gan JCVI sy'n nodi pwy ddylai gael y cynnig i gael brechlyn atgyfnerthu. Ar ôl derbyn canllawiau'r JCVI, ac ar ôl i Lywodraeth Cymru ddarparu cyngor i'r Bwrdd Iechyd ynghylch y rhaglen, byddwn yn rhannu cyfathrebiadau drwy sianelau cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd a gyda phartneriaid.

Yn y cyfamser, gofynnwn i drigolion **beidio â chysylltu** â'r Bwrdd Iechyd i wneud cais am apwyntiad, ond gofynnwn i drigolion sicrhau bod eu manylion yn gyfredol ym Mhractis eu Meddyg Teulu (yn cynnwys rhifau ffôn). Anfonir llythyr yn gwahodd unigolion sydd dan sylw ar gyfer derbyn brechlyn atgyfnerthu i apwyntiad, a dylent ddisgwyl am eu hapwyntiad.

FFIGYRAU BRECHU

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)

864,837

Cyfanswm y dos cyntaf 445,29

Cyfanswm yr ail ddos 419,54

Pobl 60 oed a'n hŷn



Grŵp 6 (Agored i Niwed)



Pobl 55-59 mlwydd oed



Pobl 50-54 mlwydd oed



Pobl 40-49 mlwydd oed



Pobl 30-39 mlwydd oed



Pobl 18-29 mlwydd oed



Pobl 16-17 mlwydd oed





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.

Menywod Beichiog sy'n derbyn Brechlyn Covid-19

Mae menywod beichiog, menywod sy'n ceisio beichiogi a menywod sy'n bwydo ar y fron yn cael eu hannog i gael eu brechiadau COVID-19. Mae hyn yn unol â chanllawiau JCVI, sy'n nodi y dylid cynnig brechlyn COVID-19 i fenywod beichiog, menywod sy'n ceisio beichiogi a menywod sy'n bwydo ar y fron, er mwyn diogelu eu hunain a'u babanod rhag risgiau COVID-19.

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg fach o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis bod angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd ac mewn menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu apwyntiad.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: [Vaccination \(rcog.org.uk\)](https://www.rcog.org.uk)

Dyddiadau sesiynau dros dro:

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Cyfeiriad
12 Medi	11:00-3:00	Canolfan Mileniwm Pill	Gerddi Courtybella, Casnewydd NP20 2GH
15 Medi	10am-3pm	Coleg Nash	Campws Casnewydd Heol Nash Casnewydd NP19 4TS
17 Medi	10am-3pm	Coleg Crosskeys	Heol Risca, Crosskeys NP11 7ZA
27 Medi (Bws)	10am-3pm	Maes Parcio'r Gwaith Haeam, Blaenafon	Maes Parcio'r Gwaith Haeam, NP4 9RL
1 Hydref	9am-5pm	Ringland	Canolfan Gymunedol Ringland, Casnewydd NP19 9PS
9 Hydref	10am-3pm	Ysgol Uwchradd Abertyleri	Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i:
<https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio>

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:

<https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:

<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

Mae data'n destun adolygiad gan fod mewnbynnu data a gwiriadau ansawdd data'n cael eu cynnal.

bipab.gig.cymru